



cerdd
gymunedol
cymru
community
music
wales

Gweithdai a Hyfforddiant



Elusen gerddoriaeth fwyaf blaenllaw Cymru yw Cerdd Gymunedol Cymru.

Rydym yn sefydliad celfyddydau cymunedol gyda 22 mlynedd o brofiad o ddarparu gweithgareddau celfyddydol o ansawdd uchel, gan gyffwrdd bywydau dros 50,000 o bobl ers ei sefydliad ac wedi trawsnewid tirwedd cerddoriaeth gymunedol yng Nghymru.

Mae Cerdd Gymunedol Cymru (CGC) yn credu y gall cerddoriaeth effeithio hyd yn oed ar fywydau'r unigolion sydd fwyaf anodd i'w cyrraedd.

Gall yr effaith fod yn bositif iawn pan fydd tiwtoriaid ac ymarferwyr cerddoriaeth cymunedol hyfforddedig yn cynnal sesiynau cerddoriaeth mewn ffordd sensitif sy'n canolbwyntio ar y cleient.

Mae cerddoriaeth yn cyfoethogi bywydau; yn 'rhyddhau'; cyffroi; lleddfu; rhoi plaser – mae'r weithred o greu cerddoriaeth yn grymuso ynddo'i hunan.



Drwy gymryd rhan mewn cerddoriaeth gymunedol gellir:

- Cynyddu hunanhyder, hunan barch a datblygu dyheadau positif.
- Darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwarae creadigol a dychmygus.
- Cynorthwyo datblygiad sgiliau sylfaenol.
- Cydlynid cymunedol creadigol.
- Caniatáu cyfranogwyr i ddysgu sgiliau newydd.
- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygu gwaith tîm a meddwl ar y cyd.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o weithio yn y diwydiannau creadigol.

Hyfforddiant

Hyfforddiant ar gyfer Unigolion

Mae hyfforddiant CGC yn cynnig hyfforddiant (ymarferol a theori) yn y sgiliau allweddol sydd eu hangen i weithio fel tiwtor cerddoriaeth gymunedol mewn amrediad eang o leoliadau cymunedol. Mae hyfforddiant ar gael i'r rhai sy'n awyddus i gael cyflwyniad sylfaenol, y rhai sy'n ystyried gyrfa ym maes cerddoriaeth gymunedol ac i rai profiadol a hoffai gyflwyno theori a chyd-destun i'w gwaith.

Hyfforddiant ar gyfer Sefydliadau

Gall CGC hefyd gynllunio cyrsiau wedi eu haddasu ar gyfer eich sefydliad. Rydym yn darparu hyfforddiant i ysgolion, colegau a phrifysgolion i ychwanegu at addysg gyfredol. Rydym hefyd yn cynnig cyrsiau ar gyfer sefydliadau ieuenctid a chymunedol er mwyn helpu staff, gwirfoddolwyr ac aelodau i gynnwys gwaith celfyddydol yn eu rhaglenni.

Cyrsiau sydd ar gael

Tiwtora rhwng Cymheiriaid

Tiwtora cymunedol yn y celfyddydau

Hyfforddi Tiwtoriaid Cerddoriaeth Gymunedol

DPP Hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid cerddoriaeth gymunedol

Cyflwyniad i Gerddoriaeth Gymunedol

Cerddoriaeth gymunedol i gerddorion gwerin

Cerddoriaeth Gymunedol yn y Gweithle

cmwtraining.co.uk



Ysgrifennu Caneuon a Chyfansoddi

Mae ysgrifennu caneuon yn cynnwys amrywiaeth eang o arddulliau a genres cerddorol ond yn ganolog iddo mewn ysgrifennu cerddoriaeth wreiddiol.

Mae'n gweithdai'n dal dychymyg y rhai sy'n cymryd rhan, gan eu helpu i fynegi eu hunain mewn amgylchedd creadigol, hwyliog a diogel.

Mae hyn yn addas ar gyfer unrhyw oed, ac ar gyfer y rhai sydd â sgiliau cerddorol cychwynnol neu rai uwch.

Mae grwpiau'n creu darn gwreiddiol o gerddoriaeth ac yn gweithio at berfformio neu recordio'u chyfansoddiad ar y diwedd.

Fe fyddwn yn teilwra'r gweithdai i anghenion eich grŵp ac i'ch graddfa amser chi.

AMCANION

Cynyddu llythrennedd - mae cyfranogion yn ysgrifennu geiriau, sy'n golygu bod rhaid iddyn nhw ystyried strwythur, odl a iaith.

Cynyddu sgiliau cerddorol.

Meithrin parch at eraill ac annog cyfathrebu - mae cyfranogion yn gweithio gyda'i gilydd i greu eu darn felly mae'n rhaid iddyn nhw wrando ar ei gilydd a pharchu syniadau'r lleill.

Cynyddu hunan-barch a hyder



AMCANION

Cynyddu rhifedd - mae cyfranogwyr yn gweithio gyda rhythmau a churiadau fydd yn gofyn iddyn nhw feddwl am y nifer o guriadau y funud a sut mae chwarae gyda'r rhain oddi fewn i rythm.

Cynyddu sgiliau cerddorol a TGCh.

Meithrin parch at eraill ac annog cyfathrebu.

Cynyddu hunan-barch a hyder.

Mae troelli yn weithgaredd deniadol iawn, a gellir ei ddefnyddio gyda cherddoriaeth o nifer o genres.

Mae gweithdai'n ddeinamig, hyblyg, ac yn fwy na dim, yn hwyl.

Mae hyn yn addas ar gyfer y rhai sy'n dechrau a'r rhai â sgiliau cerddorol uwch.

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn dysgu sut mae cydweddu curiadau, crafu, torri a jyglo curiadau, defnyddio Fynyl, CD ac MP3 a chymysgu digidol arall.

Yn ogystal â bod yn gelfyddyd ei hun, mae troelli yn gweithio'n dda fel cefndir ar gyfer perfformiadau fel theatr a dawns.

Gall troelli crafu gael eigynnwys mewn perfformiad band byw.



Cerddoriaeth Ddigidol

Mae'n gweithdai cerddoriaeth ddigidol yn cynnwys amrywiaeth eang o feysydd ac mae'n hyblyg iawn.

Gall cyfranogwyr recordio unrhyw beth o offerynnau cerdd i seiniau bob dydd ac yna ddefnyddio cyfrifiadur i drin y recordiadau hynny i greu cyfansoddiadau.

Gallwn hefyd gynnal gweithdai sy'n creu cerddoriaeth ar gyfer gofynion arbennig tebyg i draciau sain neu gemau cyfrifiadurol.

Mae'r gweithdai hyn yn gweithio'n dda gyda grwpiau bychain.

Maen nhw'n addas ar gyfer pobl heb ddim sgiliau cerddorol a'r rhai hynny sydd dipyn yn nes ymlaen.

Mae plant ifanc yn ymateb yn arbennig o dda gan eu bod yn gallu mwynhau chwarae gyda'r seiniau.

AMCANION

Cynyddu sgiliau cerddorol.

Cynyddu sgiliau TGCh.

Meithrin parch at eraill ac annog cyfathrebu.

Cynyddu hunan-barch a hyder.

Cynyddu sgiliau y gellir eu trosglwyddo megis gwaith fîm.



Drymio a Tharo

AMCANION

Cynyddu rhifedd - mae cyfranogwyr yn delio â rhythmau a thrwy hynny'n cyfrif, llusi a gweithio ar batrymau rhifol.

Cynyddu cydsymud.

Cynyddu lefelau o weithgaredd a ffitrwydd cyffredinol, gan y gall y gweithdai fod yn eithaf bywiog.

Cynyddu hyder, hunan-barch a sgiliau eraill y gellir eu trosglwyddo, tebyg i waith fîm.

Meithrin parch at eraill ac annog cyfathrebu.

Mae'r gweithdy hwn yn defnyddio offerynnau drymio a tharo Affricanaidd neu Samba.

Gan ddefnyddio rhythmau syml ac yna symud ymlaen i rhythmau mwy cymhleth mae'r grwp yn creu eu darn gwreiddiol ei hunain.

Mae canu a gwaith lleisiol yn gweddu'n dda i'r gweithdai hyn felly fe fyddwn ni'n aml yn chwarae gemau gyda rhythm, creu caneuon a chwarae â geiriau.

Mae hyn yn addas ar gyfer pobl sydd â sgiliau a galluoedd cerddorol gwahanol, gan ei fod yn creu cerddoriaeth yn syth ac mae'r synnwyr o gyflawni rhywbeth yn digwydd yn gyflym.

Gallwn weithio gyda grwpiau bach neu fawr iawn.



“Rhoddodd Cerdd Gymunedol Cymru fodd i ni weithio
gyda phobl proffesiynol sydd wedi gwella'n gwaith...
Daeth tiwtoriaid â'r gorau allan ym mhob oed a gallu”
Jayne Neal, Ty Hapus, Conway

Mae ganddon ni dros 20 mlynedd o brofiad o ddatblygu a chyflwyno gweithdai.
Rydyn ni'n sylweddoli bod gan bob grwp wahanol ofynion a gwahanol anghenion.
Fe fyddwn yn trafod anghenion eich grwp ac yn gweithio gyda chi i deilwra
gweithgaredd ar gyfer eich cyfyngiadau amser a'ch cyllideb; gallwch hefyd
gyfuno gwahanol fathau o weithdai.

Gallwn ddod i'ch canolfan chi neu weithio gyda chi i ddod o hyd i leoliad amgen.

Fe rown ni bris i chi sy'n cynnwys yr holl ffioedd tiwtoriaid, yswiriant a chytundebu.
Mae'n holl diwtoriaid wedi eu hyfforddi ac yn ymarferwyr cerdd gymunedol
profiadol gyda gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol cyfredol.
Fe fyddwn yn darparu'r cyfarpar ar gyfer y prosiect.

Rydyn ni'n ganolfan achrededig a gallwn achredu'ch gweithgaredd trwy
Agored Cymru. Rydyn ni'n gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

“Mae Cerdd Gymunedol Cymru wedi cyfannu'n gwasanaeth trwy alluogi pobl ifanc i fynegi eu
syniadau a'u gweledigaeth trwy gerddoriaeth gydag ymdriniaeth un-pwrpas, wedi ei ganolbwyntio
ar y defnyddiwr, gyda chanlyniadau sydd wedi ennill gwobrau. Ymlaen â'ch gwaith da!”

Liz Davidson, Anabledd Dysgu Cymru

Community Music Wales
Unit 8, 24 Norbury Road
Fairwater
Cardiff
CF5 3AU
02920 838060

Unit 20
Galeri, Victoria Dock
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SQ
01286 685248

admin@communitymusicwales.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig: 1009867
www.communitymusicwales.org.uk

